

**Neges gan ein Rheolwr Gyfarwyddwr...**

Annwyl Ymgeisydd,

Rwyf wrth fy modd eich bod wedi dangos diddordeb mewn gwneud cais am rôl ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, lle mae arloesi a thosturi yn mynd law yn llaw, a rhagoriaeth yn ffordd o fyw. Mae'n amser gwych i ymuno â ni!  Fel y Rheolwr Gyfarwyddwr, mae'n bleser gennyf wahodd unigolion dawnus i ymuno â'n tîm ymroddedig, gan lunio dyfodol gwasanaethau cymorth gofal iechyd yng Nghymru.

Ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, rydym yn fwy na sefydliad; rydym yn gymuned o weithwyr proffesiynol angerddol sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth. Yma, fe welwch amgylchedd deinamig sy'n meithrin twf a chydweithredu ac yn eich galluogi i ffynnu. Mae ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymorth gofal iechyd rhagorol yn ddiwyro, ac rydym yn chwilio am unigolion sy'n rhannu ein hymroddiad a'n brwdfrydedd. Rydym yn gyflogwr cynhwysol ac yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Drwy ddewis gweithio gyda ni, byddwch yn rhan o dîm sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, arloesedd a dysgu parhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn ailddiffinio safonau gwasanaethau cymorth proffesiynol, gweinyddol a thechnegol yn GIG Cymru. P'un a ydych yn weithiwr proffesiynol profiadol, newydd raddio neu adael yr ysgol, mae gennym le i'ch sgiliau a'ch syniadau, gan gyfrannu at wella gofal iechyd i bobl Cymru.

Rwy'n eich annog i archwilio'r cyfleoedd gyrfa gwerth chweil sydd ar gael ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ymunwch â ni yn ein cenhadaeth i Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth a chael effaith gadarnhaol ar fywydau miloedd. Mae eich taith tuag at yrfa foddhaus yn cychwyn yma gyda ni.

Os oes gennych chi ddiddordeb ac rydych eisiau clywed mwy, cysylltwch â ni, byddem wrth ein bodd yn siarad â chi.

Neil Frow OBE

Rheolwr Gyfarwyddwr